Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ein Cymoedd Ein Dyfodol
# Our Valleys Our Future

## Cynllun Cyflawni




@TrafodyCymoedd #Ein Dyfodol

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

**Blaenoriaeth 1** **5**

Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

**Blaenoriaeth 2** **24**

Gwell gwasanaethau cyhoeddus

**Blaenoriaeth 3** **37**

Fy nghymuned leol – Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Ymgysylltu digidol Tasglu'r Cymoedd 45












# Cyflwyniad




**Flwyddyn yn ôl, cyhoeddodd y Tasglu Gweinidogol ar gyfer Cymoedd y De y cynllun cyflawni *Ein Cymoedd Ein Dyfodol*[1] cyntaf, a oedd yn nodi rhaglen uchelgeisiol o fwy na 60 cam gweithredu. Gyda'i gilydd, byddai'r camau hyn yn cyfrannu at dair blaenoriaeth gyffredinol, y dywedodd trigolion a'r rheiny oedd yn gweithio yng Nghymoedd y De eu bod am eu gweld:**

**Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni**

**Gwell gwasanaethau cyhoeddus**

**Fy nghymuned leol**

[1] https://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/taskforce-for-the-valleys/our-valleys-our-future/?skip=1&lang=cy

Rydym wedi adolygu ein gwaith yn barhaus – gan wirio cynnydd ar lawr gwlad wrth i brosiectau gael eu rhoi ar waith ac a yw'r camau yn y cynllun cyflawni yn berthnasol o hyd i bobl sy'n byw a gweithio yn y Cymoedd. Gwnaethom ymrwymiad i ddiweddaru'r cynllun cyflawni bob blwyddyn wrth i waith y tasglu fynd rhagddo.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud. Mae adroddiad eleni yn canolbwyntio ar y camau hynny, sy'n berthnasol i ardal tasglu Cymoedd y De yn unig – sef y camau hynny sy'n cael y dylanwad a'r effaith fwyaf. Rydym am sicrhau bod y tasglu yn ychwanegu gwerth a'n bod yn canolbwyntio ar y mannau y gallwn newid pethau a rhoi polisi Llywodraeth Cymru ar waith mewn perthynas â'r Cymoedd. Nid ydym wedi cynnwys camau o'r adroddiad cyflawni cyntaf os ydynt yn ymwneud â phrosiectau a chymunedau Cymru gyfan.

Ond, eleni, rydym wedi dechrau edrych ar ba gamau a rhaglenni newydd fydd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i Gymoedd y De. Mae nifer o gamau allweddol yn y cynllun hwn rydym am eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf. Er enghraifft, wrth i'r gwaith ar A465 Blaenau'r Cymoedd fynd rhagddo, rydym am sicrhau bod cymunedau lleol yn gwireddu'r manteision o gysylltiadau trafnidiaeth gwell, o ran datblygiadau tai newydd a chyfleoedd twristiaeth. Nodir cyfleoedd i fuddsoddi yn gynnar yn 2019.

Mae gwaith ar Barc Rhanbarthol y Cymoedd yn mynd yn dda a'r flaenoriaeth nesaf yw nodi'r Pyrth Darganfod a'r llwybrau darganfod posibl. Bydd y rhain yn cael eu brandio ar y cyd a'u hyrwyddo drwy wefan newydd a sianeli cyfryngau cymdeithasol erbyn mis Ebrill 2019. Bydd y cyllid o £7 miliwn yn cael ei ddyfarnu i gefnogi datblygiad y parc rhanbarthol erbyn mis Mai 2019. Mae gan y rhan fwyaf o'r camau a restrwyd yn wreiddiol dan Fy Nghymuned Leol gysylltiad â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. Bydd y rhain yn cael eu goruchwylio gan waith y parc rhanbarthol.

Y mis hwn, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gronfa gyfalaf £25 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi saith hyb strategol gyda ffocws ar swyddi, sgiliau ac entrepreneuriaeth. Byddwn yn mynd i'r afael â'r gwaith gydag awdurdodau lleol y Cymoedd a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i gadarnhau cynlluniau ar gyfer y saith hyb ym mis Ionawr 2019. Bydd cyllid cyfalaf yr hybiau yn cael ei ddyfarnu o fis Ebrill 2019 ymlaen, law yn llaw â buddsoddiadau cyhoeddus eraill â ffocws.

Un o brif nodweddion gwaith y tasglu yw'r ffordd mae'n ymgysylltu'n barhaus â phobl sy'n byw a gweithio yn y Cymoedd – mae wedi bod yn bwysig iawn i ni siarad a gwrando ar bobl a chymunedau lleol. Byddwn yn dal ati i wneud hyn wrth i waith y tasglu barhau i mewn i flwyddyn arall. Bydd y tasglu hefyd yn parhau i weithio ledled Llywodraeth Cymru a gyda Bargeinion Dinesig. Rydym am fod yn gatalydd nid yn unig dros newid, ond hefyd i lywodraeth sy'n cydweithio'n well.

Rydym am i'r cynllun hwn ddiwallu anghenion pobl ac, yr un mor bwysig, bodloni eu disgwyliadau. Rydym am i'r cynllun hwn wneud gwahaniaeth go iawn a pharhaus i Gymoedd y De.










# Blaenoriaeth 1

## Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau i'w cyflawni

Bydd y tasglu'n gweithio'n agos gyda bargeinion dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe i gysoni a chyd-ddarparu rhai o'r uchelgeisiau a rennir yn well mewn meysydd fel yr economi sylfaen sgiliau; data, ynni a thwf glân.

Yn ogystal â'r camau a nodir yn y cynllun hwn, mae nifer o weithgareddau a rhaglenni eraill, sy'n cefnogi'r flaenoriaeth hon a'n targed allweddol i helpu 7,000 o bobl i waith teg erbyn 2021.

Nod y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a gyhoeddwyd y llynedd, yw tyfu economi Cymru.

Mae Comisiwn Gwaith Teg wedi'i sefydlu i archwilio'r dulliau ysgogi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru weithredu gwaith teg. Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd yn adeiladu ar sawl rhaglen gyflogaeth, sydd ar gael yng Nghymoedd y De. Bydd y cynnig gofal plant yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a fydd yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru, i rieni plant tair a phedair oed sy'n gweithio 48 wythnos y flwyddyn.

Yn y flwyddyn gyntaf, treialwyd dull newydd o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau yn ardal tasglu Cymoedd y De. Mae hyn wedi llywio'r Porth Cyngor Cyflogaeth newydd a'r rhaglen Cymru'n Gweithio, a fydd yn cael eu lansio ym mis Ebrill 2019 ac a fydd yn helpu pobl ledled Cymru i gyflogaeth.









*Ein Gweledigaeth erbyn 2021:*

*Byddwn yn cau'r bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru. Mae hyn yn golygu helpu 7,000 yn rhagor o bobl i gael gwaith teg ac y bydd miloedd o swyddi newydd, teg, diogel a chynaliadwy yn cael eu creu yn y Cymoedd.*

*Bydd pobl sy'n byw yn y Cymoedd yn cael mynediad at y sgiliau cywir i gael gwaith.*

*Bydd busnesau yn cael cefnogaeth lawn i dyfu a ffynnu yng Nghymoedd y De.*

*Cyflawnir hyn drwy wneud y canlynol:*

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| **Swyddi** | | | | |
| JS1 | Caiff saith hyb strategol[2] eu creu ledled Cymoedd y De i fod yn ffocws i arian cyhoeddus a darparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi gyda'r prif ffocws ar greu swyddi, datblygu sgiliau ac entrepreneuriaeth[3]. | Bydd yr hybiau strategol yn canolbwyntio ar greu swyddi drwy ddenu buddsoddiad y sector preifat, gan sicrhau bod busnesau sydd yno'n barod yn gallu tyfu a chan hyrwyddo busnesau newydd. Bydd hyn yn cynnwys gwireddu cyfleoedd adfywio economaidd drwy ddarparu tai a gwasanaethau cyhoeddus, a gwella cysylltedd drwy Fetro De Cymru.<br><br>Ar y cyd ag ymyriadau cyllido eraill, bydd y Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio yn ceisio sicrhau gwell ffyniant a chydnerthedd ledled rhanbarthau Cymru. | Gweler tudalen 7 i gael rhagor o fanylion.<br>Ar waith – Cynlluniau'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a gymeradwywyd i'w gweithredu gan eu hawdurdodau lleol.<br>Ar waith – Sicrhau bod gweithgareddau a phrosiectau sy'n cael eu darparu fel rhan o raglen y Cymoedd Technoleg yn ategu'r rheini sy'n cael eu datblygu yn yr hybiau strategol.<br>Ionawr 2019 – Datblygu cynllun manwl cyflwyno prosiectau ac amserlenni ar gyfer pob hyb strategol, gan fonitro cynnydd ac adrodd yn ôl i'r tasglu bob chwe mis.<br>Ionawr 2019 – Darparu cyllid datblygu ar gyfer prosiectau trafnidiaeth integredig.<br>Ionawr 2019 – Datblygu meini prawf ar gyfer cyllid cyfalaf hybiau strategol a'u rhannu â rhanddeiliaid.<br>Ionawr 2019 – Adolygu'r synergedd rhwng y prif ganolfannau trefi a nodwyd o dan segment Cymoedd y De o'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio a'r hyn a nodwyd yn ffurfiol o dan hybiau strategol tasglu'r Cymoedd i sicrhau bod y gwaith yn ategu ein nodau strategol ac yn cyfrannu atynt.<br>Mawrth 2021 – Parhau i dderbyn cynigion am brosiectau awdurdodau lleol a gymeradwywyd yn rhanbarthol ar gyfer y Rhaglen Targedu.<br>Ebrill 2019 ymlaen – Asesu ceisiadau a dyfarnu cyllid o dan gyfalaf hybiau strategol. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig4; datblygwyr sector preifat; busnesau. |

[2] Mae hyb strategol ychwanegol wedi ei gynnwys yn y cynllun cyflawni – chwe hyb strategol oedd yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol. Mae Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr wedi ei nodi fel atodiad pwysig oherwydd gall heriau trafnidiaeth olygu bod cymunedau yng Ngogledd sir Pen-y-bont yn cael eu hynysu o Ben-y-bont ei hun a Phen-coed. Bydd yr hyb yn agos i goridor yr M4 ac yn cynnig cyfleoedd buddsoddi sector preifat.
[3] Bydd y swyddi newydd yn deg, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.
[4] Y ddwy fargen ddinesig y cyfeirir atynt drwy'r ddogfen hon yw Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe.

# Ffocws Blaenoriaeth: Hybiau Strategol


## Cynnydd yn 2018

Ardaloedd o fuddsoddi sector cyhoeddus yw'r hybiau strategol sy'n ceisio darparu cyfleoedd i'r sector preifat fuddsoddi. Byddant yn helpu i greu swyddi, yn datblygu sgiliau ac yn meithrin entrepreneuriaeth yn yr ardal leol. Mae saith ardal ledled Cymoedd y De wedi'u dynodi fel hybiau strategol – ardaloedd sydd o fewn 45 munud i bobl sy'n byw yng nghymunedau'r Cymoedd ar drafnidiaeth gyhoeddus (gweler y map).

Mae'r gwaith o ddatblygu'r hybiau strategol wedi'i arwain gan yr awdurdodau lleol ym mhob ardal gan eu bod yn gwybod beth yw'r blaenoriaethau a'r dyheadau lleol. Yn dilyn cynadleddau ac ymgysylltu lleol, mae glasbrint ar gyfer y prosiectau wedi'i ddatblygu ar gyfer pob un o ardaloedd yr hybiau. Mae hyn yn dangos gwahanol brosiectau amrywiol a fydd yn cael eu datblygu ym mhob un o'r hybiau wrth iddynt ddechrau cyflawni. Yn gyffredinol, mae ffocws ar well swyddi a sgiliau, cysylltedd a seilwaith gwell.

## Camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid cyfalaf o £25 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf i gryfhau'r hybiau strategol. Bydd y tasglu a'r awdurdodau lleol yn gweithio'n agos gyda Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar yr uchelgeisiau a rennir ac yn sicrhau bod yr hybiau strategol yn cynorthwyo i ddatblygu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.



**Cynigion Caerffili/ Ystrad Mynach yn cynnwys**

1. Ardal gyflogaeth
2. Datblygiad preswyl
3. Hyb trafnidiaeth integredig
4. Deorfeydd busnes ac entrepreneuriaeth
5. Adfywio canol y dref
6. Twristiaeth a datblygiad diwylliannol

**Cynigion Castell-nedd yn cynnwys**

1. Ardal gyflogaeth
2. Datblygiad preswyl
3. Hyb trafnidiaeth integredig
4. Adfywio canol y dref
5. Ynni

**Cynigion Gogledd Pen-y-bont yn cynnwys**

1. Twristiaeth a datblygiad diwylliannol
2. Ynni adnewyddadwy

**Cynigion Glynebwy yn cynnwys:**

1. Y Cymoedd Technoleg – modurol a thechnoleg
2. Ardal gyflogaeth
3. Datblygiad preswyl
4. Digidol

**Cynigion Pontypridd/ Trefforest yn cynnwys**

1. Ailddatblygu Cwm Taf
2. Ardal gyflogaeth
3. Deorfeydd busnes/ hyb technegol
4. Hyb trafnidiaeth integredig
5. Adfywio canol y dref

**Cynigion Merthyr Tudful yn cynnwys**

1. Hyb trafnidiaeth integredig
2. Adfywio canol y dref
3. Datblygu parc iechyd
4. Twristiaeth a datblygiad diwylliannol

**Cynigion Cwmbrân yn cynnwys**

1. Ardal gyflogaeth
2. Hyb trafnidiaeth integredig
3. Adfywio canol y dref
4. Datblygu parc iechyd
5. Deorfeydd busnes ac entrepreneuriaeth

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS2 | Adleoli mwy o swyddi sector cyhoeddus yn y Cymoedd, gan gynnwys yn lleoliadau'r saith hyb strategol, lle y bo'n briodol, yn unol â Strategaeth Leoli Llywodraeth Cymru. | Bydd cyrff ac adrannau'r sector cyhoeddus yn adleoli i rannau o Gymoedd y De, gan helpu i gefnogi'r economi leol a chreu sylfaen i ddatblygu cyfleoedd gwaith yn lleol. | Ebrill 2019 – Parhau i ddatblygu cronfa alw a gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi safleoedd posibl ledled Cymoedd y De.<br>Ebrill 2019 – Asesu safleoedd a chyfleoedd i adleoli ac ehangu, gan gynnwys ar gyfer:<br>• Cyrff hyd braich Llywodraeth Cymru<br>• Cyrff sector cyhoeddus Cymru<br>• Cyrff sector cyhoeddus y DU<br>• Adrannau eraill Llywodraeth Cymru.<br>Ebrill 2019 – Gweithio gyda Llywodraeth y DU i greu cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. | Sefydliadau'r sector cyhoeddus; Llywodraeth Cymru; Llywodraeth y DU. |
| JS3 | Sicrhau bod mwy o dir ac eiddo cyhoeddus ar gael yn y Cymoedd ar gyfer datblygu. | Bydd tir cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i gynnig cyfleoedd datblygu economaidd | Ebrill 2019 – Yn dilyn peilot llwyddiannus yn ardal Cwm Taf, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cynllun grant, a oedd yn sicrhau bod cyllid ar gael i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnal ymarfer mapio asedau a nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar sail asedau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>Ebrill 2019 – Gweithio gydag awdurdodau lleol a'r ddwy fargen ddinesig i asesu lle mae cyfleoedd i alinio tir ac eiddo sydd ar gael yn erbyn blaenoriaethau strategol, gan gynnwys cysylltiadau â'r saith hyb strategol. | Awdurdodau lleol; y ddwy fargen ddinesig, Llywodraeth y DU; Llywodraeth Cymru; y GIG, byrddau gwasanaethau cyhoeddus. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS4 | Cynyddu cyfleoedd i gael swyddi yn yr economi leol sylfaen – busnesau rydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwmpas, fel manwerthu, gofal a'r diwydiant bwyd. | Bydd nifer y swyddi yn yr economi sylfaen yn cynyddu.<br>Bydd yr agenda gwaith teg yn cael ei rhoi ar waith i gynyddu nifer y swyddi yn yr economi sylfaen. | Gweler tudalen 10 am fanylion pellach.<br>Mawrth 2019 – Sicrhau bod y gwaith i greu swyddi yn y Cymoedd drwy'r economi sylfaen yn cyd-fynd â'r cynllun galluogi integredig sy'n cael ei ddatblygu drwy'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Bydd y cynllun yn helpu i hyrwyddo cydgysylltu ar draws y sectorau ac yn nodi rhai themâu strategol lle gallai gwell integreiddio ar draws y llywodraeth a gyda'r sectorau wneud gwahaniaeth. | Llywodraeth Cymru; y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat; Cymwysterau Cymru; ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch; Gyrfa Cymru; Gofal Cymdeithasol Cymru; partneriaid cymdeithasol; Canolfan Byd Gwaith; y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol; Dyfodol Adeiladu Cymru. |

# Ffocws Blaenoriaeth: Yr Economi Sylfaen

Nododd fersiwn 1 ein cynllun cyflawni 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' (Tachwedd 2017) wyth sector economi sylfaen i'w cefnogi i greu swyddi ychwanegol yn y Cymoedd. Mae data gwaelodlin wedi'u sefydlu ar gyfer nifer y bobl sydd eisoes yn cael eu cyflogi yn ardal y tasglu yn yr economi sylfaen. Ar sail y diffiniadau fel y maent ar hyn o bryd, yn y flwyddyn hyd 2018 roedd 170,000 o bobl yn ardal y tasglu yn gweithio yn y sectorau sylfaen. Mae hynny oddeutu 47 y cant o'r boblogaeth a gyflogir yn yr ardal.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 yn rhestru pedwar sector o'r economi sylfaen (twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal). Mae tîm tasglu'r Cymoedd yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes yr economi i ddatblygu dull mwy unffurf. Er nad yw adeiladu ac iechyd wedi'u nodi fel sectorau economi sylfaen yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, mae'r data gwaelodlin yn dangos yn glir bod cyfran fawr o bobl sy'n byw yn ardal y tasglu yn gweithio yn y sectorau hyn, felly bydd adeiladu (33,000 o bobl) ac iechyd (52,200 o bobl gan gynnwys gofal cymdeithasol) yn parhau yn feysydd ffocws ar gyfer tasglu'r Cymoedd. Mae camau gweithredu sy'n ymwneud â'r sectorau twristiaeth ac ynni yn cael eu datblygu drwy ddarpariaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd dan flaenoriaeth 3.

## Bwyd

Tachwedd 2019 – Gweithio gyda Sgiliau Bwyd Cymru, Arloesi Bwyd Cymru a'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa cynaliadwy yn y diwydiant bwyd ac i ddatblygu dealltwriaeth bellach o'r gofynion sgiliau.

Tachwedd 2019 – Cyhoeddi Strategaeth Fwyd a Chynllun Gweithredu 2020-2026 er mwyn adeiladu ar lwyddiant Cynllun Gweithredu Bwyd a Diod 2014-2020. Bydd datblygu gyrfaoedd a sgiliau yn allweddol i sicrhau llwyddiant y diwydiant bwyd yng Nghymru yn y dyfodol.

Tachwedd 2019 – Gweithio gyda darpariaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, yr Adran Gwaith a Phensiynau a chwmnïau bwyd amrywiol i ddarparu hyfforddiant a chyflogaeth bosibl, e.e.

- Castle Dairies yng Nghaerffili a fydd yn rhoi cyfnod prawf i o leiaf 2 weithiwr newydd;
- Tillery Valley Goods (Sodexo) yng Nghwmtyleri a fydd yn rhoi cyfnod prawf i o leiaf 4 gweithiwr newydd;
- R F Brookes (2 Sisters) yn y Tŷ-du a fydd yn edrych ar hyd at 50 o staff newydd i ddechrau, ond a allai gynyddu i hyd at 250 yn y dyfodol

Tachwedd 2019 – Drwy Sgiliau Bwyd Cymru cynnal rhaglen 'uwchsgilio' ar gyfer y rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sector.

Tachwedd 2019 – Cynnal ymgyrch gyrfaoedd bwyd a diod sy'n targedu'r diwydiant.

## Iechyd

Tachwedd 2019 – Yn dilyn adborth cadarnhaol, ehangu'r rhaglen beilot Cefnogi Gyrfaoedd Meddygol yng Nghymru wreiddiol ar gyfer 2019. Ei threialu yn y Cymoedd yn targedu swyddi proffesiynol iechyd ehangach a datblygu deunyddiau ar-lein i gefnogi'r fenter.

# Ffocws Blaenoriaeth: Yr Economi Sylfaen

## Adeiladu

Tachwedd 2019 – Ymgysylltu'n frwd â micro-gwmnïau adeiladu o'r Cymoedd sy'n defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol, fel Twitter a Facebook drwy'r rhaglen Dyfodol Adeiladu Cymru. Mae platfform arbennig ar Facebook yn targedu ardaloedd tasglu'r Cymoedd i ymgysylltu'n uniongyrchol ag ef a hyrwyddo cyfleoedd a digwyddiadau sy'n ceisio datblygu busnesau ar gyfer cwmnïau yn y cymoedd.

Tachwedd 2019 – Drwy'r rhaglen Dyfodol Adeiladu Cymru a Busnes Cymru, cynnal nifer o ddigwyddiadau yn ardal y tasglu i roi mynediad hawdd i fusnesau fel y gallant ddysgu mwy am gyfleoedd busnes sydd ar y gweill sy'n gallu cynnal a thyfu eu busnesau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i gyflenwyr gyda Metro De Cymru a sefydlu partneriaeth â Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant i ymgysylltu â busnesau'r Cymoedd i lywio darpariaeth sgiliau a hyfforddiant yn y dyfodol ar gyfer y diwydiant.

## Manwerthu

Tachwedd 2019 – Datblygu fframwaith rheoleiddio modern i sicrhau cystadleuaeth.

## Gofal Cymdeithasol

Medi 2019 – Cyflwyno cyfres newydd o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer dysgwyr newydd 14 oed a hŷn i ddarparu llwybrau gyrfa cliriach.

Tachwedd 2019 – Gyda rheolwyr cysylltiadau Busnes Cymru, creu rhwydwaith busnes o ddarparwyr gofal cymdeithasol, sy'n cynnig y cyfle am gymorth busnes un i un a grŵp.

Tachwedd 2019 – Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu ymgyrch denu, cadw a recriwtio sy'n ceisio hyrwyddo gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa, gan weithio gyda Cymwysterau Cymru a rhanddeiliaid allweddol.

Rhagfyr 2019 – Llunio a darparu'r cymorth busnes parhaus ar sail y gwerthusiad o'r peilot gofal cymdeithasol a Busnes Cymru yn y Cymoedd.

## Gofal Plant

Wrth roi cynllun y Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 Mlynedd ar waith byddwn yn:

Tachwedd 2019 – Hyrwyddo'r cynllun grant cymorth busnes sydd â'r nod o gefnogi darparwyr gofal plant newydd a phresennol i ehangu'r cymorth sydd ar gael i ddarparwyr gofal plant yn y Cymoedd ar hyn o bryd ac annog adeiladu capasiti a gallu ledled rhanbarthau'r Cymoedd i gyd-fynd â chyflwyno'r cynnig gofal plant.

Ebrill 2019 – Byddwn yn eithrio pob darparwr gofal plant cofrestredig rhag gorfod talu Trethi Busnes am 3 blynedd.

Medi 2019 – Gweithio gyda phartneriaid i ddechrau cyflwyno cyfres newydd o gymwysterau gofal plant ar gyfer dysgwyr newydd 14 oed a hŷn a fydd yn darparu llwybrau gyrfa a llwybrau cynnydd cliriach ledled y sectorau iechyd, addysg a gofal plant.

Tachwedd 2019 – Mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru, datblygu ymgyrch denu, cadw a recriwtio sy'n ceisio hyrwyddo gofal plant fel gyrfa ddewisol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol.

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS5 | Cyflwyno Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn y Cymoedd i greu cyfleoedd go iawn a swyddi da[5] lle mae'r angen mwyaf. Mae hyn yn cynnwys defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi lleol. | Bydd swyddi lleol yn cael eu cynnal a phrofir sut y gellir defnyddio liferi caffael i ymyrryd lle gall cadwyni cyflenwi lleol greu swyddi. | Gweler tudalen 13 am fanylion pellach.<br>Peilot 1<br>Rhagfyr 2018 – Penodi partner cymdeithasol i weithredu'r uned weithgynhyrchu i'w gadarnhau.<br>Peilot 2<br>Tachwedd 2018 – Cynyddu oriau gweithwyr o 16 i 37 awr yr wythnos – creu dwy swydd newydd (nodau cyntaf y peilot wedi'u cyflawni).<br>Ebrill 2019 – Gweithgarwch i hwyluso hyfywedd parhaus busnesau.<br>Peilot 3<br>Ebrill 2019 – Datblygu safleoedd dros dro i'w defnyddio.<br>Hydref 2019 – Yr eiddo ar gyfer y ffatri ailbeiriannu yn barod i'w gosod.<br>Peilot 4<br>Tachwedd 2018 ymlaen – Sicrhau cyllid cyfalaf i brynu cyfarpar ychwanegol i fodloni'r galw a thyfu busnesau. | Llywodraeth Cymru; y GIG; cynghorau Blaenau Gwent, Merthyr a Rhondda Cynon Taf; parth busnes Blaenau Gwent; CGGC; Canolfan Cydweithredol Cymru; mentrau cymdeithasol sy'n gyfrifol am weithredu'r pedwar cynllun peilot; TUC Cymru. |

[5] Bydd y swyddi newydd yn deg, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

## JS 5 – Swyddi Gwell yn Nes at Adref

Mae pedair rhaglen beilot fasnachol wedi'u lansio mewn ymateb i ymgyrch bresennol Swyddi Gwell yn Nes at Adref TUC Cymru. Mae'r rhain wedi cynnwys defnyddio deddfwriaeth gaffael i gadw contractau addas, gan alluogi ffatrïoedd hen a newydd i gynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i'r bobl fwyaf difreintiedig yn yr ardal.

Mae Swyddi Gwell yn Nes at Adref yn profi cyfres o ymyriadau masnachol; bydd llwyddiant y rhaglenni peilot yn golygu y bydd modd rhoi ymyriadau tebyg ar waith, gan helpu sefydliadau sector cyhoeddus eraill i gynnal rhaglenni caffael o'r fath a chael gwared ar y rhagdybaieth na ellir gwneud hynny.

### Peilot un

**Gweithgynhyrchu dillad yng Nglynebwy, gan greu 25 o swyddi newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig.**

Bydd y peilot yn penodi partner cymdeithasol i weithredu uned weithgynhyrchu yng Nglynebwy. Bydd yr uned weithgynhyrchu yn gweithredu fel marchnad lafur ryngol yn y gadwyn gyflenwi economaidd sylfaen, gan wneud dillad safonol i'w defnyddio mewn diwydiannau, gan gynnwys y sector cyhoeddus. Canlyniad – 25 swydd newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig.

### Peilot dau

**Cyflogaeth lawn amser ar gyfer staff rhan-amser yn EBO Signs yng Nglynebwy.**

Mae hon yn fenter gymdeithasol sy'n bod eisoes, ac sydd ond yn cyflogi pobl ddifreintiedig, a'r nod yw cynyddu oriau gwaith y gweithlu presennol. Canlyniad – amgylchedd gweithredu busnes cynaliadwy ar gyfer pobl anabl.

### Peilot tri

**Dechrau ffatri ailbeiriannu paent yn Rhondda Cynon Taf, gan greu 10 swydd newydd ar gyfer pobl ddifreintiedig.**

Mae'r tîm Swyddi Gwell yn sefydlu cyfrwng diben arbennig i ddwyn ynghyd y perchnogion patent presennol a menter gymdeithasol leol i efelychu ymgyrch sydd ar waith yn Birmingham ar hyn o bryd, i'w gweithredu o Barc Eco Bryn Pica yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ymgyrch yn casglu paent gwastraff ac yn ei ailbeiriannu i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Canlyniad – Erbyn diwedd y rhaglen beilot, bydd 25 swydd newydd ar gyfer pobl ddifreintieig a llai o garbon yn y gadwyn gyflenwi adeiladu yng Nghymru.

### Peilot pedwar

**Cynyddu'r galw am bapur gwastraff ar gyfer Elite Paper Solutions ym Mhentre-Bach, Merthyr Tudful, gan greu cyfleoedd ar gyfer pobl ddifreintiedig i gael profiad gwaith hollbwysig.**

Mae hon yn fenter gymdeithasol sy'n bodoli'n barod sy'n cyflogi pobl pobl anabl, pobl ddigartref a phobl sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, sy'n gweithredu fel marchnad lafur ryngol. Mae'r cwmni yn casglu, didoli a rhwygo papur gwastraff ond mae angen mwy o dunelli o bapur. Canlyniad – cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth bellach ac i'r fenter fod yn hunangynhaliol.

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS6 | Manteisio ar y potensial i greu swyddi o fuddsoddiadau seilwaith mawr, gan gynnwys Metro De Cymru, yr M4 a'r gwaith sydd ar y gweill o ddeuoli'r A465 a thai fforddiadwy newydd. | Bydd cadwyni cyflenwi newydd yn cael eu datblygu a bydd cyllid o brosiectau seilwaith yn y Cymoedd yn cael ei gadw er mwyn creu swyddi lleol. | Ar waith – Bydd gwersi sydd wedi'u dysgu drwy gynllun prentisiaeth deuoli A465 Blaenau'r Cymoedd, ynghyd â chyflogi NEETS, yn parhau i gael eu rhannu ar draws prosiectau eraill, yn y biblinell rhanbarthau, gan gynnwys prosiect posibl Coridor yr M4 o gwmpas Casnewydd. Bydd hyn yn sicrhau parhad hyfforddiant, datblygu a chyflogaeth fedrus yn y Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; Trafnidiaeth Cymru; y ddwy fargen ddinesig; y Bartneriaeth Dysgu, Medrau ac Arloesi; y sector preifat. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| **Cymorth ar gyfer busnesau** | | | | |
| JS7 | Datblygu diwylliant entrepreneuriaeth sy'n ffynnu yn y Cymoedd drwy ddod â rhanddeiliaid â diddordeb at ei gilydd a chynnig cymorth syml i unigolion, sefydliadau a busnesau. | Dulliau mwy effeithiol a chydgysylltiedig o gefnogi entrepreneuriaid a busnesau.<br><br>Pobl a busnesau yn gweithredu ar uchelgais a chyfleoedd entrepreneuraidd. | Ar waith – Sesiynau ysbrydoli gan fodelau rôl entrepreneuraidd mewn ysgolion, colegau, prifysgolion a lleoliadau cymunedol, gan ganolbwyntio ar roi syniadau ar waith.<br><br>Ar waith – Gweithio gyda phartneriaid i wella'r cysylltiadau a'r cydweithredu o fewn y system gymorth i entrepreneriaid.<br><br>Ionawr 2019 – Dyfarnu grantiau i golegau a phrifysgolion er mwyn a) creu entrepreneuriaeth yn gyflymach ymhlith myfyrwyr a b) cryfhau capasiti'r sefydliadau i arddel a hyrwyddo'r agenda entrepreneuraidd.<br><br>Mawrth 2019 – Darparu hwb entrepreneuriaeth y Cymoedd ac is-hybiau cymorth fel cyfleusterau a rennir er mwyn alinio cymorth busnes a throsglwyddo gwybodaeth.<br><br>Mai 2019 – Tynnu ynghyd grŵp o entrepreneuriaid a dynion a merched busnes sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y Cymoedd (er enghraifft, y rheini sydd wedi bod yn rhan o Fast Growth 50) er mwyn cymryd rhan mewn ymgyrch gyfathrebu benodol. Bydd yr ymgyrch yn dathlu llwyddiant entrepreneuraidd a busnes ac yn nodi modelau rôl y gall pobl uniaethu â nhw.<br><br>Mehefin 2019 – Cynyddu'r gweithgarwch entrepreneuriaeth ieuenctid drwy Syniadau Mawr Cymru – gan ymestyn y defnydd o fodelau rôl sydd wedi'u magu yn y Cymoedd. | Colegau; prifysgolion; Syniadau Mawr Cymru; Creu Sbarc; Busnesau'r Cymoedd; Llywodraeth Cymru; partneriaid cyflawni wedi'u caffael; Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru; Busnes Cymru; awdurdodau lleol; Banc Datblygu; Angylion Buddsoddi Cymru; banciau a buddsoddwyr preifat; modelau rôl Syniadau Mawr Cymru; angen penderfynu ar bartneriaid eraill. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS7 (parhad) | | | Medi 2019 – Darparu menter entrepreneuriaeth newydd a arweinir gan y gymuned er mwyn ennyn diddordeb a chefnogi pobl, gan ganolbwyntio ar godi lefel dyheadau ymhlith grwpiau anodd eu cyrraedd. | |
| JS8 | Darparu cymorth i greu busnesau newydd cynaliadwy, gan gynnwys mentrau sy'n cael eu sbarduno gan arloesedd. | Cynnydd yn nifer y busnesau newydd sy'n dechrau. | Cymorth parhaus ar gael gan Busnes Cymru i'r rhai sy'n ystyried neu sydd am ddechrau busnes newydd (cyfuniad o ddigidol, gweithdai, cynghori).<br><br>Ar waith – Mynediad at gymorth ariannol i fusnesau newydd sy'n dechrau drwy Fanc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru.<br><br>Mawrth 2019 – Defnyddio hyb entrepreneuriaeth y Cymoedd fel ffordd o gefnogi busnesau newydd gyda gofod cydweithio hyblyg a chymorth busnes arbennig gan ffynonellau a phartneriaid amrywiol (gan gynnwys y sector preifat).<br><br>Mawrth 2019 – Darparu menter entrepreneuriaeth newydd a arweinir gan y gymuned er mwyn cefnogi darpar-entrepreneuriaid drwy'r cyfnod dechreuol a'u cysylltu â chymorth busnes priodol.<br><br>Medi 2019 – Treialu rhaglen fer ddwys i annog dilysu syniadau a gweithredu i ddechrau busnes. | Busnes Cymru;<br><br>Banc Datblygu; Angylion Buddsoddi Cymru; banciau a buddsoddwyr preifat.<br><br>Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Busnes Cymru, Creu Sbarc, Colegau, Prifysgolion a phartneriaid awdurdodau lleol<br><br>Busnes Cymru, Modelau rôl Syniadau Mawr Cymru a phartneriaid eraill i'w penderfynu<br><br>Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddechrau gyda phartneriaid a gaffaelwyd |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS9 | Targedu busnesau'r Cymoedd gyda photensial twf uchel a chynnig cefnogaeth ychwanegol iddynt. | Datblygu ac ehangu busnesau drwy werthu mwy, cyfleoedd allforio, mynediad at gyllid a llogi staff. | Ar waith – Cymorth wedi'i dargedu i gefnogi busnesau sydd â photensial mawr ac ehangu busnesau drwy Raglen Cyflymu Twf Busnes Cymru.<br><br>Ar waith – Mynediad at gyllid datblygu ac ehangu (dyled ac ecwiti) drwy Fanc Datblygu Cymru ac Angylion Buddsoddi Cymru.<br><br>Ar waith – Cefnogi twf a mentrau cymdeithasol sy'n ymateb i ofynion y farchnad drwy Busnes Cymdeithasol Cymru.<br><br>Mawrth 2019 – Nodi'r hyn a ddysgwyd o gynllun peilot cymorth busnes gofal cymdeithasol y Cymoedd ac ymchwilio i'r opsiynau i gyflwyno hyn mewn rhannau eraill o Gymoedd y De.<br><br>Mai 2019 – Cynnull grŵp o entrepreneuriaid a phobl fusnes lwyddiannus o'r Cymoedd (er enghraifft, cyfranogwyr Fast Growth 50 o'r Cymoedd) i gefnogi a mentora busnesau twf posib eraill drwy eu cyfnodau ehangu.<br><br>Medi 2019 – Cynnal digwyddiad Valley PitchIt gyda grŵp o fuddsoddwyr ecwiti preifat sy'n gysylltiedig ag Angylion Buddsoddi Cymru, gan roi cymorth busnes.<br><br>Medi 2019 – Archwilio pa mor ymarferol yw cynnal grŵp cymorth cymheiriaid bach ar gyfer sefydlwyr/arweinwyr busnes twf uchel a threialu hynny.<br><br>Medi 2019 – Archwilio cyfleoedd drwy Creu Sbarc a Rhaglen Cyswllt Diwydiannol MIT i sicrhau sesiynau achlysurol ar wahanol bynciau gydag arweinwyr busnes, partneriaid ac academyddion ysbrydoledig yn y Cymoedd. | Busnes Cymru; Banc Datblygu; Angylion Buddsoddi Cymru; banciau a buddsoddwyr preifat; Busnes Cymdeithasol Cymru; Creu Sbarc; Syniadau Mawr Cymru; busnesau ac entrepreneuriaid y Cymoedd; Llywodraeth Cymru; Colegau a Phrifysgolion, MIT |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS10 | Darparu cyngor a chanllawiau i fusnesau yn ardal tasglu'r Cymoedd sy'n ymwneud â'r economi gylchol ac arloesi. | Adnoddau mwy effeithlon ac arbedion cost cysylltiedig, a swyddi newydd/ wedi'u diogelu mewn busnesau ac yn y trydydd sector. | Ar waith – Bydd busnesau yn ardal tasglu'r Cymoedd yn gallu manteisio ar hyd at 8 diwrnod o gyngor ac arweiniad a gyllidir yn llawn a fydd yn ymwneud â'r economi gylchol.<br><br>Ar waith – Bydd Busnes Cymru fel rhan o'i gynnig cymorth yn darparu cyngor ar effeithlonrwydd adnoddau i fusnesau yn y Cymoedd ac yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r economi gylchol drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol. | Busnesau a chymorth drwy SMART Cymru a Busnes Cymru. |
| **Sgiliau a Hyfforddiant** | | | | |
| JS11 | Cyflwyno'r gwasanaeth cyfnewid busnes addysg newydd er mwyn darparu gwybodaeth i ysgolion am gyfleoedd profiad gwaith perthnasol a hwyluso cysylltiadau â diwydiant mewn ysgolion. | Bydd pobl ifanc yn gallu datblygu sgiliau gwaith yn barod ar gyfer cyflogaeth. | Ar waith – Bydd hyfforddiant pellach ar gael i ysgolion yn ôl y gofyn.<br><br>Mawrth 2019 – Caiff y cynllun peilot yn nau o awdurdodau lleol y Cymoedd eu cyflwyno i bob ysgol brif ffrwd arall. | Llywodraeth Cymru; Ysgolion; Gyrfa Cymru; awdurdodau lleol; y sector preifat; rhieni/ gofalwyr; myfyrwyr. |
| JS12 | Cyn dechrau Cymru'n Gweithio ym mis Ebrill 2019, darparu cymorth cyflogadwyedd i bobl ddi-waith o fewn ardaloedd tasglu'r Cymoedd drwy'r Rhaglen Fynediad. | Bydd gan y rheini sy'n chwilio am waith ers llai na 24 mis yn ardal tasglu'r Cymoedd fynediad mwy hwylus i gymorth cyflogadwyedd. | Mawrth 2019 – Bydd dros 1,000 o unigolion yn y Cymoedd wedi manteisio ar gymorth cyflogadwyedd a sgiliau drwy'r Rhaglen Fynediad er mwyn cael gafael ar gyflogaeth a'i chadw. | Llywodraeth Cymru; Gyrfa Cymru; rhaglenni cyflogadwyedd eraill |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS13 | Darparu cymorth a hyfforddiant i bobl sy'n ddi-waith yn y tymor hir ac yn economaidd anweithgar i ennill sgiliau i gael swydd. Byddwn yn sicrhau bod rhaglenni cyflogaeth a sgiliau sy'n cefnogi'r rhai sydd bellaf o waith yn gydgysylltiedig a byddwn yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu cymalau cymdeithasol i sicrhau bod hyn yn digwydd. | Bydd 7,000 o bobl ddi-waith neu economaidd anweithgar yn derbyn cymorth i gael gwaith. | Ionawr 2019 – Hwyluso mwy o gysondeb rhwng Llywodraeth Cymru a'i Chynllun Cyflogadwyedd yng Nghymoedd y De, grŵp cyflogadwyedd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac is-grŵp cyflogadwyedd y De-orllewin ar gyfer y bartneriaeth sgiliau rhanbarthol.<br>Gorffennaf 2019 – Cytuno ar gamau i ddatrys materion allweddol a godir gan randdeiliaid yn y Cymoedd, gan gynnwys bod yn barod am waith, gwybodaeth am y farchnad lafur, olrhain y daith gyflogaeth a chamu ymlaen mewn gwaith. | Llywodraeth Cymru; yr Adran Gwaith a Phensiynau; Remploy; Cymunedau am Waith; PaCE; Esgyn; awdurdodau lleol; y sector preifat a'r sector cyhoeddus. |
| JS14 | Darparu model prentisiaeth a rennir i ysgogi'r farchnad ym meysydd STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), iechyd, twristiaeth, lletygarwch, ffermio, rheoli coetiroedd a thechnoleg micro-hydro. | Bydd cyfleoedd newydd yn y farchnad yn cael eu sbarduno a'u cynyddu trwy ddatblygu sylfaen sgiliau i bobl gael mynediad i gyfleoedd gwaith cyfredol ac arfaethedig.<br>Bydd nifer y prentisiaid mewn meysydd blaenoriaeth yn cynyddu. | Ionawr 2019 – Gweithio gyda Gwerth Cymru, awdurdodau lleol a chontractwyr allweddol i weld sut gall cymalau cymdeithasol gynorthwyo gyda'r gwaith o recriwtio a chadw prentisiaid.<br>Mawrth 2019 – Cynorthwyo 50 o brentisiaid yn ardal tasglu'r Cymoedd drwy Brentisiaethau a Rennir ym maes Adeiladu a Pheirianneg.<br>Mawrth 2019 – Gweithio gyda darparwyr a chyflogwyr ar gamau i wella nifer y busnesau sy'n dechrau (Prentisiaethau ac AB) ym maes twristiaeth/yr amgylchedd yn ardal tasglu'r Cymoedd.<br>Mai 2019 – Cynnal dau ddigwyddiad strategol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Have a Go, sy'n cynnwys hyd at 50% o'r ysgolion yn ardal tasglu'r Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; Canolfan Gwybodeg Cymru; cyflogwyr; darparwyr prentisiaethau; grwpiau cymuned; Cyngor Partneriaeth y Gweithlu. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS15 | Targedu buddsoddiad er mwyn helpu i ddarparu prentisiaethau mewn sectorau twf a phrinder yn rhanbarthol. | Bydd cyfleoedd prentisiaethau yn cael eu creu mewn sectorau blaenoriaeth yn rhanbarthol. | Mawrth 2019 – Cyhoeddi platfform cyfryngau Cymru gyfan.<br>Chwefror 2019 – Cynnal ymgyrch cyflogwyr sy'n benodol i'r Cymoedd ac yna gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr. | Llywodraeth Cymru; cyflogwyr y sectorau preifat a chyhoeddus; awdurdodau lleol; sefydliadau addysg bellach ac uwch; ysgolion; darparwyr hyfforddiant; Gofal Cymdeithasol Cymru; Gyrfa Cymru. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| JS16 | Helpu myfyrwyr yn y coleg, rhai sy'n dysgu yn y gwaith ac yn y brifysgol i gynnal a datblygu eu sgiliau yn y Gymraeg i ateb y galw mewn sectorau allweddol megis iechyd a gofal cymdeithasol. | Bydd pobl y Cymoedd yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith. | Mawrth 2019 – Cefnogi ymarferwyr a'r gweithlu addysgol ehangach yn rhanbarth tasglu'r Cymoedd i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth ôl-16 Gymraeg ledled y rhanbarth.<br>Mawrth 2019 – Adolygu effaith y Mentrau Iaith lleol ymysg swyddogion busnes wrth gefnogi busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg a darparu gwasanaethau Cymraeg.<br>Mawrth 2019 – Adrodd ar gynnydd wrth i ysgolion gynyddu nifer y dysgwyr Cymraeg fel y nodir yn eu Cynlluniau Strategol Addysg.<br>Gorffennaf 2019 – Datblygu a hyrwyddo argaeledd darpariaeth addysg Gymraeg ôl-16 yn rhanbarth tasglu'r Cymoedd.<br>Gorffennaf 2019 – Treialu adnodd trosglwyddo iaith cenedlaethol ar sail ymchwil yn rhanbarth tasglu'r Cymoedd.<br>Gorffennaf 2019 – Cwblhau rhaglen gymorth beilot ar gyfer meddygfeydd teulu mewn clwstwr yn y Cymoedd i ddeall yr heriau wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog mewn meddygfeydd teulu. Bydd hyn yn datblygu pecyn adnoddau cymorth i gael ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru. | Llywodraeth Cymru; sefydliadau addysg bellach ac uwch; darparwyr dysgu seiliedig ar waith; myfyrwyr; y trydydd sector; y sector preifat; sefydliadau'r sector cyhoeddus; y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Mentrau Iaith; yr Urdd. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| **Digidol** – *Caiff tri cham pellach a grewyd yn sgil y Llif Gwaith Digidol eu cynnwys yng nghyfeirnodau PS2, PS3 a PS12 Blaenoriaeth 2.* | | | | |
| JS17 | Buddsoddi yn yr adnodd mapio data Cymru gyfan Lle i ddatblygu ei gydnerthedd, sut mae'n gweithio a'i gynnwys i sicrhau mynediad hawdd at ddata daearyddol ac ystadegol y gellir ei ddefnyddio i lywio ac annog buddsoddiad yng Nghymoedd y De. | Gwelliannau parhaus i sicrhau porth daearyddol sefydlog, y gellir ei ehangu'n gyflym a diogel i'w rannu drwy'r llywodraeth gyda'r sector preifat a gyda dinasyddion. Gwell ymwybyddiaeth a mynediad at Lle gan ddefnyddwyr o'r sector cyhoeddus a phreifat.<br>Gwell niferoedd o setiau data wedi'u cynnwys i gefnogi penderfyniadau mewn perthynas â buddsoddi mewnol yn ardal tasglu'r Cymoedd. | Ionawr 2019 – Gorffen gwaith cynllunio technegol Lle.<br>Chwefror 2019 – Datblygu cais porth data diogel.<br>Mawrth 2019 – Symud Lle i strwythur cwmwl newydd.<br>Mawrth 2019 – Lansiad cyhoeddus proffil y Cymoedd.<br>Gorffennaf 2019 – Datblygu cymwysiadau defnyddwyr<br>Gorffennaf 2019 – Lansio porth data diogel. | Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru |

## Manteisio ar botensial rhanbarthol yr A465

Mae buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith yng Nghymoedd y De, fel deuoli'r A465 a Metro De Cymru ar waith ond rydym yn gwybod na fydd seilwaith ar ei ben ei hun yn adfywio ardal. Mae cwestiynau ynghylch a fydd manteision cynigion y tasglu yn cael eu teimlo i'r un graddau gan gymunedau ym Mlaenau'r Cymoedd o gymharu â'r rhai sy'n agosach i Gaerdydd, Abertawe a Chasnewydd wedi'u codi mewn digwyddiadau ymgysylltu a gan randdeiliaid.

Cynhaliodd y tasglu weithdy i archwilio sut y gallau cymunedau Blaenau'r Cymoedd fanteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad yn yr A465, mewn partneriaeth â'r Gynghrair Cymunedau Diwydiannol a Sefydliad Bevan. O ganlyniad, mae Prifysgol De Cymru wedi'i chomisiynu i ddatblygu cyfres o flaenoriaethau a chynigion ar gyfer buddsoddi.

Mae Prifysgol De Cymru wedi dadansoddi tystiolaeth bresennol ac wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol i nodi'r tair blaenoriaeth ac amlinellir y canlyniadau isod.

### Cadwyn Arloesi A465: Sefydlu clwstwr arloesi amlbwrpas ar sail strategaeth arbenigo doeth rhyngranbarthol (nodwyd tri pharth posibl)

- Datblygu brand diwydiant cadarn ar gyfer rhanbarth Blaenau'r Cymoedd a De Cymru;
- Cefnogi BBaChau a chreu cysylltiadau cadarn rhwng diwydiant, addysg a chymunedau lleol;
- Cysylltu darpariaeth sgiliau gyda chyfleoedd am swyddi gan arwain at ddatblygu gweithlu dawnus iawn, sy'n hyfforddi a chadw doniau lleol;
- Denu buddsoddiad mewnol a doniau lleol ac allanol i'r rhanbarth;
- Hybu'r economi sylfaen.

### Llwybr De Cymru: Sefydlu llwybr twristiaeth cydlynol ar draws y rhanbarth (Nodwyd tri pharth blaenoriaeth)

- Datblygu map llwybr cydlynol ledled rhanbarth y De i hybu twristiaeth a'r economi sylfaen leol;
- Hyrwyddo cynhyrchion rhanbarthol (er enghraifft, cwrw lleol, cawsiau Caerffili a Blaenafon, crefftau llaw), cefnogi BBaChau lleol;
- Datblygu pontio seiliedig ar ddiwylliant i gefnogi diwydiannau creadigol;
- Potensial ar gyfer opsiynau teithio llesol pellach yn cysylltu'r Metro a gwasanaethau bws a thrên presennol.

### Rhoi ailddiben a dadlygru (nodi pum safle posibl)

- Adnewyddu tir ar hyd ardal yr A465, gan alluogi defnydd yn y dyfodol a chysylltedd rhyngranbarthol;
- Hyrwyddo cyfleoedd ymchwil ac opsiynau buddsoddi yn y rhanbarth;
- Meithrin adnoddau i'w defnyddio yn y dyfodol;
- Archwilio'r defnydd o dir at ddibenion ynni adnewyddadwy.

**Beth nesaf…**

Bydd tasglu'r Cymoedd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ar sut y gellir datblygu'r cynigion hyn yn gamau i'w cynnwys yng nghynllun cyflawni'r flwyddyn nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys nodi cysylltiadau â blaenoriaethau presennol yn Ein Cymoedd, Ein Dyfodol a nodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddi.

# Blaenoriaeth 2

## Gwell gwasanaethau cyhoeddus

Nodir ein gweledigaeth ar gyfer gwell gwasanaethau cyhoeddus a'r camau penodol yn ardal tasglu'r Cymoedd isod.

Mae Cymru Iachach: ein cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn nodi gweledigaeth hirdymor yn y dyfodol o 'ddull system gyfan o ran iechyd a gofal cymdeithasol', sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles, ac ar atal salwch.

Mae cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Bydd yn rhoi mwy o bwyslais ar baratoi pobl ifanc ar gyfer bywyd; yn meithrin eu gallu i ddysgu sgiliau newydd a defnyddio eu gwybodaeth am bwnc yn fwy cadarnhaol a chreadigol. Bydd y cwricwlwm ar gael ar gyfer adborth ym mis Ebrill 2019 ac yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion yng Nghymru erbyn 2022.

Cynyddwyd y Grant Datblygu Disgyblion eleni ar gyfer y dysgwyr ieuengaf, gan adeiladu ar ddyblu'r cymorth ariannol y dysgwr y pen ar gyfer blynyddoedd cynnar, a ddigwyddodd y llynedd.



*Ein gweledigaeth erbyn 2021:*

*Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol i ymateb i anghenion pobl.*

*Bydd cymorth ar gael i helpu pobl i fyw bywydau iachach, gan wella eu lles corfforol a meddyliol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.*

*Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn gydgysylltiedig, yn fforddiadwy ac yn helpu pobl i fynd i'r gwaith, i'r ysgol neu i hyfforddiant, ac i gyfleusterau hamdden.*

*Byddwn yn gwella canlyniadau addysg i bob plentyn a chau'r bwlch cyrhaeddiad.*

*Cyflawnir hyn drwy wneud y canlynol:*

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleusterau ar gyfer cymunedau** | | | | |
| PS1 | Defnyddio hybiau cymunedol cyfredol – a chreu rhai newydd – lle gall y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau gwaith gydweithio â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol. Byddwn ni'n cydweithio â chymunedau lleol a chynghorau lleol i ddatblygu'r rhain a phenderfynu lle dylid eu lleoli. | Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn fwy ymatebol i anghenion pobl. | Tachwedd 2019 – Bydd Gweithgor Hybiau Cymunedol y Tasglu yn gweithio gyda chymunedau lleol a chynghorau lleol i gyflawni yn erbyn y pum blaenoriaeth a nodwyd yng nghynhadledd yr hybiau cymunedol ym mis Gorffennaf 2018.<br><br>Y blaenoriaethau yw:<br>• Bylchau hyfforddiant<br>• Patfform y rhwydwaith<br>• Cyllid<br>• Rôl awdurdodau lleol<br>• Mesur effeithiau.<br><br>Gweler y dudalen nesaf am fanylion pellach. | Llywodraeth Cymru; byrddau gwasanaethau lleol; cysylltwyr cymunedol a chydlynwyr lleol; awdurdodau lleol; byrddau iechyd; ysgolion; yr Adran Gwaith a Phensiynau; Gyrfa Cymru; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; byrddau gwasanaethau cyhoeddus; grwpiau cymunedol; y trydydd sector a'r sector preifat. |

# Hybiau Cymunedol

**Cynnydd yn 2018**

PS1 Defnyddio hybiau cymunedol cyfredol – a chreu rhai newydd – lle gall y GIG, y gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion a chanolfannau gwaith gydweithio â'r trydydd sector i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau lleol. Byddwn ni'n cydweithio â chymunedau lleol a chynghorau lleol i ddatblygu'r rhain a phenderfynu lle dylid eu lleoli.

**Ble rydym ni arni?**

Mae gweithgor hybiau cymunedol wedi'i sefydlu, gyda chynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Creu Cymunedau, y Sefydliad Dysgu a Gweithio, y GIG, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Datblygwyd y pum blaenoriaeth – bylchau hyfforddiant; platfform y rhwydwaith; cyllid; rôl awdurdodau lleol a mesur effeithiau – mewn digwyddiad a fynychwyd ym mis Gorffennaf gan 120 o bobl a oedd yn gweithio gyda chymunedau'r Cymoedd.

Bydd y grŵp hefyd yn codi ymwybyddiaeth o arferion gorau ac enghreifftiau llwyddiannus o integreiddio gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy gyfres o astudiaethau achos manwl. Bydd y rhain yn adlewyrchu hybiau sy'n gweithio mewn partneriaeth gyda chyrff cyhoeddus ac yn dod â gwasanaethau yn fwy lleol a rhai sy'n datblygu o anghenion cymunedol ac yn ymgorffori mynediad at wasanaethau lleol. Bydd hybiau cymunedol yng Nghymoedd y De yn cael eu mapio i ddeall y gwasanaethau amrywiol ac eang a gynigir.

### Cyllid

Mapio'r cyllid sydd ar gael ar gyfer yr hybiau ac annog neu alluogi cyllidwyr eraill a chymorth gan fusnesau lleol i gefnogi cymunedau lleol.

### Rhwydweithio

Creu rhwydwaith ar-lein i'w gwneud yn bosibl i hybiau gyfathrebu a chydweithio'n well, a fydd yn ategu'r rhwydweithio personol ac yn helpu'r hybiau i beidio â theimlo eu bod wedi'u hynysu. Mae'r hybiau am ymchwilio i heriau a'r hyn y maent yn ei gyflawni ochr yn ochr â'u cyd-hybiau a nodi eu hanghenion eu hunain a'r atebion posibl.

### Hyfforddiant

Nodi bylchau mewn hyfforddiant a'i gwneud yn bosibl i hybiau rannu sgiliau drwy ddeall sut maent yn gweithio a'u blaenoriaethau datblygu. Cydnabod y lefelau capasiti presennol a sut y mae cyfyngiadau yn effeithio ar allu hybiau i gael gafael ar gymorth a'i ddefnyddio. Byddwn yn ceisio galluogi hybiau i dynnu ar arbenigedd sydd ganddynt eisoes ac ymchwilio i rôl Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Phrifysgolion.

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS2 | Treialu dull o ddarparu parthau Wi-Fi cymunedol drwy ddefnyddio adeiladau sector cyhoeddus | Bydd y peilot yn penderfynu a ellir a sut y gellir galluogi gwasanaethau Wi-Fi cymunedol ar draws ôl-troed tasglu'r Cymoedd, a chaiff ei lywio gan ddadansoddiad costau a manteision y gwaith a wneir fel rhan o'r peilot. Mae'r manteision cymunedol a ragwelir yn cynnwys gwell mynediad at wasanaethau digidol a'r manteision economaidd a chymdeithasol a ddaw yn sgil hynny. | Mae cynnig tasglu'r Cymoedd yn dilyn prosiect braenaru sydd eisoes yn cael ei archwilio yn Ysgol Gynradd Tregatwg, Bro Morgannwg. Mae'r prosiect hwnnw ar waith gyda thystiolaeth fyw o'r treial cysyniad yn dirwyn i ben ddiwedd mis Chwefror 2018 gydag adroddiad terfynol ym mis Ebrill 2018.<br><br>Gan ddysgu gwersi o hyn, y Cerrig Milltir dangosol ar gyfer y peilot yn ardal y tasglu yw:<br><br>Ebrill 2019 – Nodi a chynllunio'r safle.<br><br>Medi 2019 – Uwchraddio a gosod seilwaith.<br><br>Hydref 2019 i Fawrth 2020 – Treial ar waith. | Llywodraeth Cymru (tîm Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus), BT, awdurdodau lleol/ partneriaid sector cyhoeddus eraill ar sail y safle a ddewisir |
| PS3 | Datblygu Ap sy'n canfod a hysbysu defnyddwyr pan fo lleoliadau Parth Wi-Fi cymunedol ar gael yn Ardal tasglu'r Cymoedd. | Bydd y Parthau Wi-Fi cymunedol sy'n cael eu galluogi drwy'r peilot hwn i'w gweld ar yr Ap. | Ebrill 2019 – Cynllunio a chwmpasu<br><br>Mehefin 2019 – Cwmpasu darpariaeth ar gyfer Datblygu Ap<br><br>Hydref 2019 – Datblygu a phrofi'r Ap | Academi Meddalwedd Cenedlaethol, Tîm Cynllun Ail-lenwi Dŵr yn Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS4 | Adeiladu ar raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru i gydleoli gwasanaethau a chanolbwyntio ar ddefnydd cymunedol o adeiladau ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau bod modd defnyddio ysgolion mewn ffordd fwy hyblyg a'u galluogi i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cyhoeddus y tu allan i oriau ysgol.<br><br>Cytuno ar £15 miliwn o gyllid ar gyfer prosiectau i ddatblygu canolfannau dysgu cymunedol/hybiau cymunedol. | Bydd y defnydd cymunedol o ysgolion yn cynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu darparu o adeiladau ysgolion. | Tachwedd 2018 – Proses cyflwyno cynigion ar waith ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a Band B Addysg, gyda dyhead y bydd 10% o brosiectau yn ymgorffori'r defnydd cymunedol o asedau.<br><br>Mawrth 2019 – Cyllid Band B ar gael i'w ryddhau. Mae oddeutu £0.4 biliwn wedi'i glustnodi ar gyfer buddsoddi yn ardal tasglu'r Cymoedd, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes.<br><br>Mawrth 2019 – Mae cynigion gan bartneriaid mewn awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach yn cael eu hasesu a bydd cyllid ar gael i'w wario erbyn 1 Ebrill 2019.<br><br>Mawrth 2019 – Hyrwyddo Grant Cyfalaf Hybiau Cymunedol/Canolfannau Dysgu Cymunedol i sicrhau bod awdurdodau lleol y Cymoedd a sefydliadau addysg bellach yn cynnig am gyllid. | Llywodraeth Cymru; byrddau gwasanaethau lleol; awdurdodau lleol; ysgolion; y GIG; sefydliadau addysg bellach; y trydydd sector; Canolfan Byd Gwaith. |
| PS5 | Rheolwyr busnes hynod fedrus sy'n canolbwyntio ar y gymuned i gefnogi a chynyddu cysylltiadau rhwng partneriaid cymunedol lleol ac ysgolion.<br><br>Cynnal rhaglenni peilot yn ardaloedd tasglu'r Cymoedd, gan gynnwys: Pen-y-bont ar Ogwr'; Caerffili (2 glwstwr); Rhondda Cynon Taf (3 clwstwr); a Thorfaen. | Ysgolion yn ymgysylltu â phartneriaid cymunedol i sicrhau manteision amrywiol, gan gynnwys ystod ehangach o brofiadau dysgu cyfoethog, gwell safonau a mwy o ddefnydd o safleoedd ysgolion. | Hydref 2019 – Dyfarnu cyllid a dechrau rhoi hyn ar waith.<br><br>Ebrill 2020 – Adroddiad terfynol/astudiaeth achos o ardaloedd y rhaglen beilot i'w cwblhau. | Llywodraeth Cymru; ysgolion; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; partneriaid cymunedol; y trydydd sector. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS6 | Datblygu cyfleoedd hyfforddi a rhaglen fynediad ehangach i bobl ifanc o'r Cymoedd sydd am ddilyn gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys meddygaeth a gweithwyr gofal deintyddol. Bydd hyn yn datblygu ar rwydwaith Seren. | Cynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dechrau gyrfa yn y system iechyd leol. | Rhagfyr 2018 – Adolygu rhaglenni profiad gwaith y peilot ac ystyried dyfodol mentrau.<br><br>Gorffennaf 2019 – Adolygu'r ystod o ddeunyddiau ehangu mynediad ar-lein sydd ar gael i gefnogi unigolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen breswyl a chymorth o ystyried yr adborth a dderbyniwyd gan fyfyrwyr.<br><br>Medi 2019 – Gwerthuso rhaglen breswyl a chymorth myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg ac ystyried opsiynau ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol. | Cysylltu'r rhaglen fynediad ehangach hon â gwaith cynorthwywyr gofal iechyd deintyddol. |
| PS7 | Hyrwyddo rhagnodi cymdeithasol, gan gynnwys treialu ffyrdd newydd o gysylltu pobl â chymorth iechyd meddwl, er enghraifft trwy'r celfyddydau a diwylliant; chwaraeon a hamdden llesol; corau cymunedol a'r defnydd o fannau gwyrdd. | Bydd unigolion yn derbyn cymorth i ysgwyddo mwy o reolaeth dros eu hiechyd meddwl a'u llesiant eu hunain.<br><br>Bydd y galw am wasanaethau iechyd yn lleihau yn sgil gofal ataliol gwell a rheoli cyflyrau hirdymor yn well. | Rhagfyr 2018 – Cytuno ar drydydd peilot rhagnodi cymdeithasol iechyd meddwl yn y Cymoedd. Mae cyllid eisoes wedi'i ddyrannu ar gyfer rhaglenni peilot a gynhelir gan Mind Cymru yn Nhaf Elái a'r Groes Goch yng ngogledd Caerffili.<br><br>Mawrth 2020 – Cwblhau'r gwaith o werthuso'r rhaglenni peilot a datblygu argymhellion ar gyfer cyflwyno'r rhaglen yn ehangach o bosibl. | Llywodraeth Cymru, CGGC; Iechyd Cyhoeddus Cymru; byrddau gwasanaethau lleol; byrddau iechyd; clystyrau gofal sylfaen; y trydydd sector. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS8 | Fel rhan o Gynllun Aer Glân Cymru, bydd camau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau difrifol i iechyd pobl yng nghymunedau'r Cymoedd sy'n deillio o ansawdd aer gwael oherwydd allyriadau gan ddiwydiant, traffig a chartrefi. | Mae pobl mewn cymunedau lleol yn gwbl ymwybodol o beryglon llygredd aer a'r hyn y gallant ei wneud i'w atal a/neu ei osgoi.<br><br>Gwella lefelau iechyd dros amser a lleihau problemau cardiofasgwlaidd ac anadlu sydd i'w priodoli i lygredd aer neu sy'n cael eu gwaethygu ganddo. | Rhagfyr 2018 – Lansio Fframwaith Parth Aer Glân i sbarduno a galluogi camau lleol ar ansawdd aer.<br><br>Ionawr 2019 – Mae'r gwaith wedi dechrau ar Gynllun Aer Glân Cymru a fydd yn nodi llygryddion allweddol a'u heffeithiau ar iechyd y cyhoedd ac amgylchedd naturiol Cymru.<br><br>Ebrill 2019 – Yn unol â chanllawiau polisi statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, bydd Cyngor Caerffili yn adolygu a diweddaru Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer canol tref Caerffili, gan ymgysylltu â chymunedau lleol yn y broses.<br><br>Mehefin 2019 – Parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Caerffili i sicrhau cynllun terfynol i gydymffurfio â gwerthoedd terfyn nitrogen deuocsid yn Hafodyrynys.<br><br>Ionawr 2020 – Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd ar gyfer 2023. Mae'r drafft ymgynghori yn cynnwys adrannau arbennig ar weithgarwch penodol mewn nifer o awdurdodau lleol o fewn y Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; mewnbwn traws-sector a chyngor academaidd gan Weithgor Aer a Hinsawdd Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig; Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS9 | Treialu ymchwiliad rheolaidd gyda mamau newydd i'w Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gan ymwelwyr iechyd, yn ardal awdurdod lleol Blaenau Gwent. | Bydd y gwaith o werthuso'r peilot yn cael ei ddefnyddio law yn llaw â'r rhai sydd eisoes wedi'u cynnal yn Ynys Môn ac sydd hefyd ar y gweill yn ardaloedd Abertawe, Llanelli a Sir y Fflint o bosibl, i bennu a ddylid mabwysiadu ymchwiliad rheolaidd drwy Gymru. | Ionawr hyd Gorffennaf 2019 – Cynnal holiaduron ymchwiliad rheolaidd gyda phob mam newydd (cyfarnogiad gwirfoddol) yn yr ymweliad â'r cartref ar ôl chwe wythnos.<br>Awst hyd Hydref 2019 – Gwerthuso canfyddiadau'r peilot.<br>Tachwedd 2019 – Cyhoeddi canfyddiadau'r gwerthusiad.<br>Rhagfyr 2019 – Penderfynu a ddylid cyflwyno'r ymchwiliad rheolaidd ymhlith holl weithlu ymwelwyr iechyd Cymru. | Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. |
| **Tai** | | | | |
| PS10 | Ymgysylltu'n agos â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd wedi nodi tai fel blaenoriaeth. Mae sicrhau cyllid yn hollbwysig i'r De-ddwyrain fel y gall fanteisio i'r eithaf ar hyn (a bydd y rhan fwyaf yn y Cymoedd).<br>Yn 2017/18, ehangwyd y Gronfa Datblygu Eiddo drwy fuddsoddi £30 miliwn ychwanegol a lansiwyd Cronfa Safleoedd Segur Cymru gyda buddsoddiad o £40 miliwn, drwy Fanc Datblygu Cymru. Drwy'r naill a'r llall bydd cyfanswm buddsoddiad o £430 miliwn (gydag ailgylchu). | Cynyddu nifer y cartrefi newydd sy'n cael eu hadeiladu yn y Cymoedd. | Mai 2019 – Adroddiad ar gyfanswm gwariant yn ardal y tasglu hyd yma drwy bob cynllun.<br>Mai 2019 – Adrodd ar gyfanswm y BBaChau sy'n cael eu cefnogi drwy bob cynllun yn ardal y tasglu. | Banc Datblygu Cymru, Ffederasiwn y Meistri Adeiladu, Adeiladwyr Tai BBaCh, awdurdodau lleol |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS11 | Ystyried argymhellion o adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) "Effecting housing for people on low incomes in the Welsh Valleys" a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. | Bydd anghenion tai penodol ardal y tasglu yn cael eu hystyried gan y panel annibynnol sy'n cynnal yr adolygiad o dai fforddiadwy.<br>Bydd argymhellion yn cael eu gwneud i Gymru yn gyffredinol, ond byddant yn mynd i'r afael â nifer o'r materion a godir yn yr adroddiad. | Tachwedd 2018 – Sicrhau bod y panel annibynnol sy'n cynnal yr adolygiad o dai fforddiadwy yn ymwybodol o argymhellion adroddiad JRF.<br>Mehefin 2019 – Bydd yr argymhellion sy'n codi o'r adolygiad o dai fforddiadwy yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2019. Bydd swyddogion yn pennu cerrig milltir pellach ar ôl cyhoeddi'r adroddiad. | JRF, Panel Annibynnol Adolygu Tai Fforddiadwy, awdurdodau lleol, LCCau, Sefydliad Bevan |
| **Trafnidiaeth** | | | | |
| PS12 | Defnyddio'r rhaglen trafnidiaeth ymatebol integredig bresennol a gynhelir gan Trafnidiaeth Cymru, sicrhau ffocws ar gydgysylltu trafnidiaeth i ac o apwyntiadau iechyd mewn ardaloedd peilot drwy ddefnyddio system ap/teleffoni.<br>Mae'r cyfnod gwaith presennol yn dystiolaeth o gysyniad a bydd yn arwain at allbwn efelychiadol o'r hyn y gallai datrysiad trafnidiaeth ymatebol integredig fod. | Bydd gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n well, ac yn sgil hynny dylai'r gwasanaeth gael ei redeg yn fwy effeithlon. | Tachwedd 2018 – Casglu setiau data yr ardaloedd peilot.<br>Rhagfyr 2018 – Datblygu efelychiad o ddatrysiad trafnidiaeth ymatebol integredig.<br>Ionawr 2019 – Dadansoddiad o amrywiant efelychiad y datrysiad trafnidiaeth ymatebol integredig.<br>Chwefror 2019 – Paratoi syniad o'r ap defnyddwyr.<br>Mawrth 2019 – Llunio amlinelliad o achos busnes.<br>Ebrill 2019 – Dechrau'r peilot. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; GIG Cymru; Cymdeithas Addysg a Thrafnidiaeth Gymunedol; Prifysgol Caerdydd |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS13 | Sicrhau bod yr hybiau arfaethedig i Fetro De Cymru yn gweithredu fel pwyntiau cymunedol allweddol, gan ddarparu ffocws ar dai, iechyd, addysg a buddsoddiadau eraill mewn gwasanaethau cyhoeddus. | Ansawdd teithio gwell, mwy o gapasiti a theithiau amlach. | Ebrill 2019 – Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru ac awdurdodau lleol i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd integreiddio trafnidiaeth ym mhob un o'r hybiau strategol, gan gysylltu buddsoddiadau tai, iechyd, addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill.<br>Ebrill 2019 – Uwchgynlluniau ar gyfer y don gyntaf o hybiau strategol yn eu lle. | Trafnidiaeth Cymru; awdurdodau lleol; darparwyr gwasanaethau bws lleol; gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol; Network Rail; Llywodraeth Cymru. |
| PS14 | Cydweithio â darparwyr bysiau a rheilffordd i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus ledled y Cymoedd yn fwy mynych a fforddiadwy a'i bod yn cysylltu â theithio llesol – beicio a cherdded – fel rhan o ddatblygiad Metro De Cymru. | Bydd llwybrau bysiau a threnau amlach a mwy fforddiadwy yn cael eu darparu ledled y Cymoedd drwy waith partneriaeth rhwng gweithredwyr ac awdurdodau lleol yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol. | Mawrth 2020 – Yn unol â chytundeb Cyllideb Llywodraeth Cymru gyda Phlaid Cymru, bydd yr achos strategol amlinellol ar gyfer Bae Abertawe a Metro Cymoedd y Gorllewinol yn cael ei ddatblygu.<br>Ebrill 2021 – Bydd angen i wasanaethau bysiau, gyda chefnogaeth y Grant Cymorth Gwasanaethau Bysiau, fod yn rhan o Gynllun Partneriaeth Ansawdd bysiau gwirfoddol neu statudol. Bydd hyn yn pennu uchafswm o ran prisiau tocynnau a pha mor aml y bydd y gwasanaethau yn rhedeg. | Trafnidiaeth Cymru; Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Defnyddwyr Bysiau Cymru; darparwyr gwasanaethau bws lleol; cwmnïau trafnidiaeth cymunedol; deiliad masnachfraint rheilffyrdd. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS15 | Gwella trafnidiaeth gyhoeddus i adlewyrchu'n well anghenion busnesau a chymunedau lleol, gan gynnwys pobl sy'n gweithio oriau anghyson a rhan-amser. | Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu anghenion pob cymuned. | Gorffennaf 2019 – Cwblhau adolygiadau o rwydweithiau bws ym mhob ardal awdurdod lleol, gan gynnwys teithiau bws trawsffiniol.<br>Tachwedd 2019 – Targedu cyllid cyhoeddus i adlewyrchu canlyniad yr adolygiadau o'r rhwydweithiau bws. | Trafnidiaeth Cymru; awdurdodau lleol; darparwyr gwasanaethau bws lleol; cwmnïau trafnidiaeth cymunedol; deiliad newydd masnachfraint y rheilffyrdd; Llywodraeth Cymru. |
| P16 | Archwilio dichonoldeb cynllun prisiau gostyngol i bobl ifanc ar draws trafnidiaeth gyhoeddus. | Bydd trafnidiaeth fwy fforddiadwy i bobl ifanc yn arwain at fynediad gwell i swyddi a gwasanaethau cyhoeddus. | Tachwedd 2018 – Ymestyn y cynllun teithio gostyngol FyNhocynTeithio i gynnwys pobl ifanc 16 i 21 oed.<br>Ionawr 2020 – Teithio am ddim ar drenau i blant dan 5 yn cael ei ymestyn i blant dan 11 bob awr o'r dydd, a phlant dan 16 oed ar adegau llai prysur, tra bydd tocynnau hanner pris yn cael eu hymestyn i bobl ifanc 16-18 oed. | Llywodraeth Cymru; Defnyddwyr Bysiau Cymru; Traveline Cymru; Trafnidiaeth Cymru; deiliad newydd masnachfraint y rheilffyrdd; darparwr gwasanaethau bws lleol; cwmnïau trafnidiaeth cymunedol; awdurdodau lleol. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS17 | Treialu llwybrau bysiau newydd ac ehangu darpariaeth trafnidiaeth gymunedol ar draws y Cymoedd. Bydd hyn yn adeiladu ar waith Cwm Cynon, lle mae trafnidiaeth gymunedol wirfoddol yn helpu pobl anabl. | Bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn adlewyrchu ac yn gwasanaethu anghenion pob cymuned. | Gorffennaf 2019 – Llwybrau bws newydd posibl a gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol wedi'u nodi a'u cynnwys yn y cynllun partneriaeth ansawdd bysiau statudol y cytunwyd arno gydag awdurdodau lleol a Trafnidiaeth Cymru. | Trafnidiaeth Cymru; awdurdodau lleol; darparwyr gwasanaethau bysiau lleol; cwmnïau trafnidiaeth cymunedol; Cymdeithas Cludiant Cymunedol Cymru. |
| **Addysg** | | | | |
| PS18 | Cynllun Bwyd a Hwyl i ddarparu cyfleoedd i blant mewn ysgolion yn y Cymoedd sy'n cymryd rhan gael manteisio ar weithgareddau addysgol cyffrous sy'n eu cyfoethogi, sesiynau chwaraeon a dau bryd o fwyd maethlon bob dydd yn ystod gwyliau'r haf 2019. | Helpu i fynd i'r afael â'r cyrhaeddiad coll y mae dysgwyr agored i niwed yn ei wynebu dros wyliau'r haf; darparu gwybodaeth a sgiliau maeth bwyd; lliniaru arwahanrwydd cymdeithasol; cynyddu gweithgarwch corfforol a chynyddu cyfanswm y ffrwythau a llysiau sy'n cael eu bwyta gan ddysgwyr. | Medi 2019 – Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i annog mwy o awdurdodau lleol ac ysgolion yng Nghymoedd y De i gymryd rhan yn ystod gwyliau haf 2019. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; byrddau iechyd; Iechyd Cyhoeddus Cymru; sefydliadau trydydd sector; CLILC. |
| PS19 | Cryfhau'r cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion trwy'r cynlluniau peilot mewngymorth iechyd meddwl. | Bydd cryfhau'r berthynas rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) ac ysgolion yn helpu plant a phobl ifanc i dderbyn y cymorth sydd ei angen arnynt cyn gynted â phosibl. | Gorffennaf 2020 – Bydd rhaglenni peilot yn cael eu cynnal ym Mlaenau Gwent a Thorfaen dros ddwy flynedd academaidd. | Llywodraeth Cymru; byrddau iechyd; awdurdodau lleol; ysgolion. |

| Cyf | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| PS20 | Codi lefel cyrhaeddiad addysgol a deilliannau dysgwyr yn y Cymoedd drwy barhau i ehangu cwmpas Grant Datblygu Disgyblion, gan adeiladu ar ei lwyddiannau a pharhau i chwalu rhwystrau y mae dysgwyr yn eu hwynebu. | Drwy ehangu cwmpas Grant Datblygu Disgyblion, caiff dysgwyr yng nghymunedau'r Cymoedd eu cefnogi gan wasanaethau addysg i godi lefel eu deilliannau a'u dyheadau addysgol, a chaiff eu rhwystrau i ddysgu eu lleihau. | Ebrill 2019 – Mwy o gyllid drwy Grant Datblygu Disgyblion, gan gefnogi cohort ehangach o ddysgwyr y Cymoedd i godi lefel eu dyheadau a chyflawni eu potensial addysgol.<br>Tachwedd 2019 – Cyhoeddi canllawiau newydd, gan ystyried deunyddiau penodol ac arferion gorau. Bydd hyn yn adlewyrchu materion penodol yn ysgolion a chymunedau'r Cymoedd i sicrhau effaith fwyaf bosibl eu defnydd o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion. | Llywodraeth Cymru; consortia addysg rhanbarthol; ysgolion. |

# Blaenoriaeth 3

## Fy nghymuned leol – Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Yng nghynllun cyflawni Ein Cymoedd, Ein Dyfodol y llynedd (Tachwedd 2017), roedd y flaenoriaeth hon yn cynnwys 12 maes gweithredu a oedd yn ymwneud â chanol trefi, ynni adnewyddadwy, twristiaeth a'r amgylchedd ffisegol a cham penodol i archwilio datblygiad Parc Tirweddau'r Cymoedd.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda chymunedau a sefydliadau ledled y Cymoedd i edrych ar y flaenoriaeth hon yn fanylach. Yn benodol, rydym wedi bod yn archwilio dyheadau pobl a'r cyfleoedd i fanteisio cymaint ag y modd ar ein treftadaeth naturiol a diwylliannol i ddatblygu'r syniad o'r parc tirweddau.


Arweiniodd y gwaith hwn at ddatblygu prosbectws manwl ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd, a oedd yn nodi'r weledigaeth ac yn gwahodd pawb i lywio ei ddyfodol. Mae'r prosbectws yn canolbwyntio ar dair thema gydgysylltiedig – tirwedd, diwylliant a hunaniaeth y Cymoedd; hamdden a lles a chymunedau a menter.


Rydym wedi ail-archwilio'r camau a gyhoeddwyd o dan y flaenoriaeth hon flwyddyn yn ôl a, lle'n briodol, wedi eu cysoni ag uchelgeisiau a themâu cyflawni Parc Rhanbarthol y Cymoedd.

Ond nid ydym wedi symud i ffwrdd o'r egwyddorion sylfaen sy'n ategu'r flaenoriaeth hon:

- Mae'r Cymoedd yn lle mae pobl yn falch i'w alw'n gartrefm, lle mae busnesau yn dewis gweithredu.
- Mae cymunedau wedi'u grymuso ac yn ymfalchïo yn eu hamgylchedd, sy'n hawdd i'w gyrraedd ac yn cael ei ddefnyddio'n eang.
- Mae'r amgylchedd naturiol wrth wraidd bywyd y cymoedd.





*Erbyn 2021:*

*Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd wedi ei sefydlu i helpu cymunedau lleol i ddathlu a manteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol a threftadaeth.*

*Bydd canol trefi'r Cymoedd yn llawn bywyd gyda digon o fannau agored gwyrdd, a fydd yn fodd i gefnogi'r economi leol.*

*Bydd y Cymoedd yn gyrchfan gydnabyddedig i dwristiaid, a fydd yn denu ymwelwyr o bob cwr o'r DU a thu hwnt.*

## Parc Rhanbarthol y Cymoedd

Bydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn darparu ac yn cynnal y gwaith o wella a rheoli rhwydwaith amlwg iawn o ucheldiroedd, coetioroedd a gwarchodfeydd naturiol a pharciau gwledig, afonydd, cronfeydd dŵr a chamlesi, safleoedd treftadaeth ac atyniadau ledled y Cymoedd, gan gysylltu â'n trefi a'n pentrefi.

### Themâu Cyflawni

#### Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth

- Mae'r Cymoedd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol a rhyngwladol am ansawdd a harddwch eu tirweddau a'u treftadaeth unigryw
- Mae amgylchedd y Cymoedd yn iach yn cefnogi ymatebion i newid hinsawdd, ansawdd a rheoli dŵr, bioamrywiaeth a chysylltedd cynefinoedd, gweithgarwch economaidd lleol ac iechyd a lles pobl
- Mae tirweddau naturiol a diwylliannol y Cymoedd wrth galon ail hunaniaeth a diwylliant y Cymoedd.
- Mae trefi'r Cymoedd yn fywiog gyda seilwaith gwyrdd heb ei ail.

#### Hamdden a Lles

- Mae'r gan y Cymoedd enw da am gyfleoedd hamdden o ansawdd uchel gyda chymunedau a busnesau sy'n elwa ar economi ymwelwyr llewyrchus.
- Mae pobl yn y Cymoedd yn mwynhau gwell iechyd a lles drwy well cyfleoedd hamdden a ffyrdd o fyw mwy egnïol.

#### Cymunedau a Menter

- Mae cymunedau sy'n cael eu grymuso yn hollbwysig i fath newydd, cyffrous o dirwedd ddynodedig ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, gyda gwell stiwardiaeth o'u hasedau naturiol yn darparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol
- Mae'r amgylchedd a'r dreftadaeth gysylltiedig yn chwarae rôl allweddol mewn economi sylfaen gadarn sy'n cefnogi busnesau a mentrau cymdeithasol yn ein cymunedau

## Cyflawnir hyn drwy wneud y canlynol:

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP1 | Strwythur llywodraethu priodol ar waith sy'n adlewyrchu'r ystod lawn o bartneriaid. | Strwythurau llywodraethu a gweithredu cadarn sy'n cyflawni dull partneriaeth. | Ionawr 2019 – Creu strwythur llywodraethu gyda chylch gorchwyl a gweithdrefnau gweithredu y cytunir arnynt. | Llywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol; y trydydd sector. |
| VRP2 | Creu tîm brwd a dawnus gyda chysylltiadau cryf â Llywodraeth Cymru a phartneriaid Parc Rhanbarthol y Cymoedd, i gefnogi datblygiad a gweithrediad Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Tîm cymorth gyda'r sgiliau priodol i wireddu gweledigaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd a gweithio mewn partneriaeth ar draws pob sector a gyda chymunedau. | Tachwedd 2018 – Cyflwyno cais am gyllid drwy'r Gronfa Cydweithredu a Chadwyn Cyflenwi.<br>Ionawr 2019 – Galw am fynegiannau o ddiddordeb i gynnal tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Chwefror 2019 – Penderfynu pwy fydd yn cynnal tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Ebrill 2019 – Tîm cymorth ar waith. | Llywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol; y trydydd sector. |

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP3 | Datblygu Thema Un Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Tirwedd, Diwylliant a Hunaniaeth<br><br>Gan weithio gyda phartneriaid, sicrhau hyd at 10 safle Porth Darganfod ledled y Cymoedd.<br><br>Nodi llwybrau darganfod posibl i gysylltu â'r Pyrth Darganfod. | Bydd Pyrth Darganfod yn adrodd straeon y Cymoedd ac yn fannau cychwyn sy'n denu ymwelwyr ac yn annog pobl leol i archwilio a darganfod y cyffiniau, gan gynnwys trefi a phentrefi, a'r tirweddau ehangach. | Tachwedd 2018 – Dewis a chyhoeddi cam cyntaf y safle Porth Darganfod.<br><br>Rhagfyr 2018 – Cytuno ar feini prawf ar gyfer Canolfannau Darganfod.<br><br>Ionawr 2019 – Lansio'r gronfa buddsoddi cyfalaf catalydd (£7 miliwn dros ddwy flynedd) i gefnogi datblygiad Pyrth Darganfod.<br><br>Chwefror 2019 – Nodi a chysoni Llwybrau Darganfod gyda disgwyliadau ar gyfer cynlluniau datblygu.<br><br>Chwefror 2019 – Gwefan Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn cynnwys y cam cyntaf y Safleoedd Darganfod ac yn amlinellu datblygiadau a chyfleoedd sydd ar waith o ran Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br><br>Ebrill 2019 – Pwyntiau gwybodaeth yn adlewyrchu lleoliadau a gweithgareddau ledled y Cymoedd wedi'u gosod a'u brandio ar y cyd yng ngham un y Pyrth Darganfod.<br><br>Mai 2019 – Dyfarnu cyllid catalydd a chynlluniau datblygu'r Pyrth Darganfod ar waith. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru, y trydydd sector. |

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP4 | Datblygu Thema Dau Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Hamdden a Lles.<br><br>Cysylltu cyfleoedd drwy ddatblygiad Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda'r Metro i hyrwyddo Parc Rhanbarthol y Cymoedd a chefnogi cyfleoedd Teithio Llesol (Cerdded a Beicio) a fydd yn cyfrannu at wella llesiant yn y Cymoedd.<br><br>Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru a gyda phartneriaid i hyrwyddo mynediad i gefn gwlad i ddatblygu cyfleoedd i gynyddu rhagnodi cymdeithasol gwyrdd. | Pobl yn y Cymoedd yn mwynhau gwell iechyd a lles diolch i gyfleoedd hamdden gwell yn yr awyr agored a ffyrdd o fyw mwy egnïol. | Tachwedd 2018 – Cysoni gwaith Parc Rhanbarthol y Cymoedd ar lwybrau cerdded a beicio gyda datblygiadau'r Metro a chynlluniau trafnidiaeth ehangach.<br><br>Chwefror 2019 – Nodi rhwydwaith Rhagnodi Cymdeithasol Gwyrdd a chynnal gweithdy datblygu cychwynnol i archwilio cyfleoedd. | Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, Keolis-Amey, Trafnidiaeth Cymru, Byrddau Iechyd, y trydydd sector, Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP5 | Datblygu Thema Tri Parc Rhanbarthol y Cymoedd: Cymunedau a Menter<br>Sefydlu a chynnal rhwydwaith cymorth cymheiriaid i sicrhau bod cyfranogiad cymunedol cadarn ac effeithiol wrth fodloni nodau ac amcanion Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Archwilio datblygiad cyfleoedd economi sylfaen posibl sy'n gysylltiedig ag ynni a'r amgylchedd.<br>Lle'n briodol, darparu cymorth i sefydliadau cymunedol i annog datblygiad cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol lleol yn y Cymoedd. | Mae cymunedau sy'n cael eu grymuso yn hollbwysig i fath newydd, cyffrous o dirwedd ddynodedig ym Mharc Rhanbarthol y Cymoedd, gyda gwell stiwardiaeth o'u hasedau naturiol yn darparu manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol.<br>Mwy o gynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol sy'n darparu manteision lleol. | Rhagfyr 2018 – Nodi ac ymgysylltu â sefydliadau yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau treftadaeth drwy strategaeth gyfathrebu effeithiol.<br>Mawrth 2019 – Rhwydwaith cymheiriaid i gymheiriaid i gefnogi a chynnal grwpiau cymunedol.<br>Mawrth 2019 – Prosiect Skyline yn cael ei gefnogi gyda chymorth mapio a logistaidd priodol.<br>Ebrill 2019 – Gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, archwilio'r potensial ar dir cyhoeddus ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy rhanberchenogaeth mwy.<br>Mai 2019 – Gweithio gyda phartneriaid i nodi cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r economi sylfaen.<br>Gorffennaf 2019 – Defnyddio gwersi o brosiect Skyline i lywio'r cynlluniau tymor canolig i hir ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>Tachwedd 2019 – Dal ati i gefnogi prosiectau presennol a nodi safleoedd mwy addas ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a chynnal astudiaethau dichonolrwydd cychwynnol. Bydd hyn yn ymwneud â gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i nodi unrhyw safleoedd posibl ar gyfer datblygu stad Llywodraeth Cymru. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Grwpiau Cymunedol, Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru; tîm Prosiect Skyline; Cyfoeth Naturiol Cymru. |

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP6 | Datblygu naratif newydd a chadarnhaol ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd a nodi prosiectau i fodloni gofynion twristiaeth presennol a rhai'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar y dirwedd, y dreftadaeth a'r bobl. | Mae gan y Cymoedd enw da am weithgareddau hamdden awyr agored o ansawdd uchel a busnesau yn elwa ar econimi ymwelwyr sy'n ffynnu.<br><br>Mae'r Cymoedd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ansawdd a harddwch eu tirweddau a'u treftadaeth unigryw.<br><br>Bydd nifer yr ymwelwyr â'r Cymoedd, a'r arian y mae ymwelwyr yn ei wario, yn cynyddu. | Haf 2019 – Gweithio ar integreiddio Parc Rhanbarthol y Cymoedd gydag ymgyrchoedd twristiaeth cenedlaethol Croeso Cymru – Blwyddyn Darganfod a Ffordd Cymru.<br><br>Haf 2019 – Parhau i fuddsoddi yng Nghastell Caerffili i sicrhau ei fod yn denu mwy o ymwelwyr i'r Cymoedd.<br><br>Tachwedd 2019 – Parhau i annog datblygiadau twristiaeth allweddol dan arweiniad y sector preifat yn y Cymoedd.<br><br>Tachwedd 2019 – Parhau i gefnogi prosiectau seilwaith twristiaeth llai o faint. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; y sector twristiaeth; y trydydd sector; y sector preifat, Croeso Cymru; y sector cymunedol |
| VRP7 | Nodi cyfleoedd i ddenu digwyddiadau newydd i'r Cymoedd – digwyddiadau chwaraeon, fel beicio mynydd, cyfeiriannu a datblygu digwyddiadau presennol, megis Gŵyl Steelhouse, yng Nglyn Ebwy. | Bydd nifer yr ymwelwyr â'r Cymoedd, a'r arian y mae ymwelwyr yn ei wario, yn cynyddu.<br><br>Bydd proffil y Cymoedd fel ardal ar gyfer digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol yn cynyddu. | Haf 2019 – Ymgysylltu'n rhagweithiol â phartneriaid allweddol yn y Cymoedd i ddeall cyfleoedd ar gyfer cynnal digwyddiadau yno yn y dyfodol. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; Chwaraeon Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Croeso Cymru; y sector twristiaeth. |

| Ref | Cam gweithredu – ar sail y camau gweithredu a gyhoeddwyd yn *Ein Cymoedd, Ein Dyfodol* | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir allweddol | Partneriaid |
|---|---|---|---|---|
| VRP8 | Drwy'r Grant Galluogi Cyfoeth Naturiol a Llesiant, annog prosiectau cydweithredol i gael eu cyflwyno ar gyfer cyllid i gefnogi'r canlynol o fewn ardal Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy.<br>Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig.<br>Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a datrysiadau seiliedig ar natur. | **Ionawr 2019** – Monitro nifer y ceisiadau a gyflwynir sy'n cynnwys ardaloedd Parc Rhanbarthol y Cymoedd i'r cylch cyntaf o geisiadau am grant.<br>**Ebrill 2019** – Adrodd ar fathau, niferoedd a symiau'r prosiectau a gyllidir sy'n cynnwys darpariaeth o fewn ardaloedd Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>**Ebrill 2019** – Os oes angen, cynnal rhaglenni neu dargedu penodol pellach i gefnogi ac annog ceisiadau. | Llywodraeth Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; awdurdodau lleol; y trydydd sector. |
| VRP9 | Llunio canllawiau a chefnogaeth sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am ffynonellau a chyfleoedd cyllid y gellir manteisio arnynt i gefnogi darpariaeth gweledigaeth a chanlyniadau Parc Rhanbarthol y Cymoedd. | Mae partneriaid, cymunedau a rhanddeiliaid eraill yn gwbl ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael ac yn cael eu cefnogi drwy'r broses gwneud cais/cyllid. | **Rhagfyr 2018** – Bydd tîm Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn gweithio gydag adrannau Llywodraeth Cymru i adlewyrchu'r canlyniadau dymunol mewn perthynas â rhaglenni cyllid (Croeso Cymru, Iach a Byw'n Iach ac Egnïol, Teithio Llesol a Galluogi Cyfoeth Naturiol a Lles) a chyfrannu at werthuso cynigion yn y dyfodol.<br>**Chwefror 2019** – Cronfa ddata o raglenni cyllid a sefydliadau ar waith ac yn cael ei rhannu gyda rhwydwaith ymgysylltu Parc Rhanbarthol y Cymoedd.<br>**Mawrth 2019** – Datblygu rôl yn nhîm cymorth newydd Parc Rhanbarthol y Cymoedd gyda ffocws ar gyllid. Bydd hyn yn gweithio gyda phob sector i archwilio a datblygu cyllid a chyfleoedd buddsoddi ar gyfer gweithgareddau sy'n gysylltiedig â Pharc Rhanbarthol y Cymoedd. | Llywodraeth Cymru; awdurdodau lleol; sefydliadau cyllid; y trydydd sector; y sector preifat. |

## Ymgysylltu digidol Tasglu'r Cymoedd

Mae ymgysylltu mewnol ac allanol yn parhau i lywio gwaith y tasglu ac yn ategu darpariaeth ein blaenoriaethau allweddol. Mae nifer o rwydweithiau wedi hen ennill eu plwyf gyda mwy na 500 o bobl yn cyfrannu'n uniongyrchol a llawer mwy yn cael eu cyrraedd drwy rannu'r wybodaeth â rhwydweithiau lleol. Mae'r rhain yn gysylltiadau hollbwysig ac mae'n bwysig ei gwneud yn hawdd i randdeiliaid o'r Cymoedd gydweithio, yn arbennig wrth geisio sicrhau newid hirdymor, cynaliadwy.

Bydd y tasglu yn treialu adnoddau cydweithio ac ymgysylltu digidol gyda golwg ar eu cyflwyno'n raddol ledled ffrydiau gwaith a rhwydweithiau'r tasglu erbyn Mawrth 2019. Bydd y gwaith hwn fel peilot i ddull Llywodraeth Cymru o ymgysylltu yn y dyfodol, ac yn cynnwys cymunedau wrth lunio polisi a gweithio'n hyblyg ar draws ffiniau polisi i gyflawni'r ymrwymiadau yn *Symud Cymru Ymlaen a Ffyniant i Bawb*.

| Camau Gweithredu | Canlyniad disgwyliedig | Cerrig milltir | Rhanddeiliaid Allweddol |
|---|---|---|---|
| Treialu dulliau newydd o reoli rhanddeiliaid, defnyddio adnoddau ymgysylltu a chydweithio digidol i gefnogi gwaith y tasglu, gyda golwg ar gyflwyno dulliau llwyddiannus ledled Llywodraeth Cymru erbyn 2021.<br><br>Bydd rhanddeiliaid yn cael eu cefnogi i gydweithio ac ymgysylltu gyda'i gilydd yn haws, gan gyfathrebu'n rheolaidd a rhannu arferion gorau i gefnogi a chryfhau eu gwaith. Bydd rhanddeiliaid y Cymoedd, a'u rhwydweithiau, yn cael eu cefnogi i ymgysylltu'n haws ar faterion y tasglu. | Bydd platfform ymgysylltu digidol ar waith, ac wedi cynyddu nifer y bobl sy'n ymgysylltu'n rheolaidd ar faterion y tasglu.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru wedi adolygu ei dull o ymgysylltu allanol a mewnol ac wedi datblygu ffyrdd newydd i gynnwys rhanddeiliaid a chymunedau wrth lunio polisi. | Tachwedd 2018 – Bydd rhaglen beilot yn cael ei chynnal gyda grŵp bach o randdeiliaid allanol i brofi adnodd cydweithio digidol sydd wedi'i gymeradwyo.<br><br>Rhagfyr 2018 – Yn amodol ar lwyddiant y peilot cychwynnol, bydd yr adnodd cydweithio digidol sydd wedi'i gymeradwyo yn cael ei chyflwyno'n raddol ledled holl ffrydiau gwaith a rhwydweithiau'r tasglu.<br><br>Rhagfyr 2018 – Bydd grŵp ymgysylltu digidol Llywodraeth Cymru yn cyfarfod i drafod dull y sefydliad o ymgysylltu a chyfleoedd ar gyfer gwella hyn drwy adnoddau digidol.<br><br>Ionawr 2019 – Nodi adnodd ymgysylltu digidol newydd i gefnogi'r cam nesaf o ymgysylltu â rhanddeiliaid.<br><br>Chwefror 2019 – Bydd peilot o'r adnodd ymgysylltu digidol newydd yn cael ei gynnal gyda grŵp bach o randdeiliaid allanol.<br><br>Mawrth 2019 – Cyflwyno'r adnodd ymgysylltu digidol newydd yn raddol ledled rhwydweithiau'r tasglu, gan gynnwys y rhwydwaith cymheiriaid i gymheiriaid ar gyfer Parc Rhanbarthol y Cymoedd a hybiau cymunedol.<br><br>Ionawr 2020 – Cyflwyno'r adroddiad gwersi sydd wedi'u dysgu i grŵp ymgysylltu digidol Llywodraeth Cymru.<br><br>Erbyn 2021 – Gweithio gyda grŵp ymgysylltu digidol Llywodraeth Cymru i ddatblygu adnodd ymgysylltu newydd drwy'r sefydliad. | Llywodraeth Cymru; Gweinidogion; Cynghorau Gwirfoddol Sirol; awdurdodau lleol; prifysgolion. |







© Hawlfraint y Goron 2018 WG36254 ISBN digidol 978-1-78964-449-4 Images dotted throughout: © Hawlfraint y Goron (2016) Visit Wales